



Dirnad Economi Cymru

Adroddiad chwarterol

Tachwedd 2025

Crynodeb	3
1. Cyflwyniad	5
2. Rhagolygon economaidd byd-eang, y DU a rhanbarthol	6
3. Y darlun BBaCh yn y DU a Chymru: Amodau newidiol yn llywio'r galw am gyllid	15
4. Darparu cyllid BBaCh a chost cyllid	23
5. Gweithgarwch Banc Datblygu Cymru	29
6. Casgliadau	34
Atodiad 1	35
Atodiad 2	36

Mark Lang, Max Munday, Annette Roberts, Neil Roche

Uned Ymchwil Economi Cymru, Ysgol Busnes Caerdydd
mundaymc@cf.ac.uk

I gael rhagor o wybodaeth neu i gyflwyno adborth a chynigion
ymchwil, e-bostiwrch: DirnadEconomi@bancdatblygu.cymru

*Mae'r SYG wedi rhoi cyngor ar gynhyrchu'r adroddiad hwn ond nid yw'n gyfrifol
am y safbwyntiau na'r ystadegau a gyflwynwyd ac nid yw wedi dilysu'r cynnwys.*

Dirnad Economi Cymru Cyfyngedig, Uned J Pentref Busnes Iâl, Ffordd Ellice, Wrecsam, Cymru, LL13 7YL, 11001584.

Banc Datblygu Cymru ccc (Development Bank of Wales Plc) yw cwmni daliannol Grŵp sy'n masnachu fel Banc Datblygu Cymru. Mae'r Grŵp yn cynnwys nifer o is-gwmnïau sydd wedi'u cofrestru ag enwau gan gynnwys y blaenlythrennau BDC / DBW. Mae Banc Datblygu Cymru ccc yn gwmni cyllid datblygu sy'n eiddo'n gyfan gwbl i Weinidogion Cymru ac nid yw wedi'i awdurdodi na'i reoleiddio gan yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus (ArhD) na'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (AYA). Mae gan Banc Datblygu Cymru (Development Bank of Wales) dri is-gwmni sydd wedi'u hawdurdodi a'u rheoleiddio gan yr AYA. Sylwch nad yw Banc Datblygu Cymru ccc nac unrhyw un o'i is-gwmnïau yn sefydliadau bancio nac yn gweithredu felly. Mae hyn yn golygu na all unrhyw un o endidau'r grŵp dderbyn blaendaliadau gan y cyhoedd. Mae siart strwythur cyfreithiol cyflawn ar gyfer Banc Datblygu Cymru ccc ar gael yn bancdatblygu.cymru.

Amodau economaidd

Gyda llifau masnach yn cynyddu mwy nag a ddisgwyliwyd cyn i rwystrau masnach yr Unol Daleithiau ddod i rym, a thariffau effeithiol cyfartalog yn is nag a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2025, **diwygiodd y Gronfa Ariannol Ryngwladol (a adwaenir yn gryno fel yr IMF) y rhagamcan twf byd-eang ar gyfer 2025 i fyny 0.2 pwynt canran i 3.0%**. Cynyddodd rhagamcan 2026 0.1 pwynt canran i 3.1%.

Dangosodd data gan y SYG fod chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr (MPD) deuddeg mis **yn y DU yn 3.8% ym mis Awst 2025, yr un gyfradd ag ym mis Gorffennaf 2025**. Y cyfrannwr mwyaf at i lawr oedd trafniadaeth (yn enwedig prisiau awyr), tra bod y cyfranwyr mwyaf at i fyny yn cynnwys bwyta i gwestai, a bwyd.

Ym mis Medi 2025 **pleidleisiodd Banc Lloegr i cadw Cyfradd y Banc ar 4.0%**. Mae hyn yn dilyn toriad o 0.25 pwynt canran ym mis Awst ac yn adlewyrchu rhagolygon mwy gofalus wedi'u gyrru gan chwyddiant parhaus.

Yn **y tri mis hyd at fis Gorffennaf 2025** Amcangyfrifwyd bod **cynnyrch domestig gros (CDG) y DU wedi cynyddu 0.2%**. Cafodd hyn ei yrru'n bennaf gan dwf y sector gwasanaethau yn y cyfnod.

Rhwng Mehefin ac Awst 2025, **roedd cyfanswm y swyddi gwag yn y DU wedi gostwng 119,000** o'i gymharu â lefel y llynedd. Mae amcangyfrifon o PAYE yn dangos gostyngiad yn nifer y gweithwyr cyflog yn y DU ar gyfer Awst 2025 i 30.3m, gostyngiad o 127,000 o weithwyr o'i gymharu ag Awst 2024. **Yng Nghymru, gostyngodd nifer y gweithwyr cyflog 6,100 i 1.31m yn y flwyddyn hyd at Awst 2025**.

Cyfradd anweithgarwch economaidd y DU oedd 21.1% yn y chwarter rhwng Mai a Gorffennaf 2025. **Yng Nghymru**, y ffigur cymharol oedd **25.6%**. Er bod hyn yn ostyngiad ar draws y DU a Chymru, mae anweithgarwch economaidd yn parhau i fod yn gyfyngiad sylweddol ar dwf economaidd.

Ar ôl pum chwarter yn olynol o ddirywiad ym **mynegai adeiladu Cymru** hyd at 2024Ch4, bu **cynnydd yn 2025Ch1** - er ei fod yn parhau i fod 12.9% yn is na lefel 2022 ar gyfer Cymru. Roedd y ffigur cymharol ar gyfer y DU 3.6% yn uwch na lefel 2022 yn Ch1 2025.

Lleihaodd gwerth nwyddau a allforiwyd o Gymru 8.2% i £17.07bn yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2025. Bydd hyn, ynghyd â'r gostyngiad yn nifer yr allforwyr dros yr un cyfnod, yn effeithio ar weithgarwch economaidd a chynhyrchiant.

Y rhagolwg cyfartalog ar gyfer twf CDG y DU yn 2025 oedd 1.2% ym mis Medi 2025. Roedd hyn yr un fath â'r rhagolwg newydd cyfartalog a wnaed ym mis Awst 2025.

Amodau economaidd sy'n newid yn llunio'r galw am gyllid

Gostyngodd hyder busnesau ym Mynegai Busnesau Bach y DU Ffederasiwn y Busnesau Bach **yn ôl yn 2025Ch2 gan gofnodi -44.1**, er iddo aros uwchlaw'r isafswm pedair blynedd o -64.5 a gofnodwyd yn 2024Ch4. Parhaodd yr economi ddomestig i fod y prif bryder i fusnesau bach fel rhwystr posibl i dwf.

Dangosodd y Monitor Cyllid Busnesau Bach a Chanolig (BBaCh) fod 28% o fusnesau bach a chanolig y DU (ac eithrio busnesau newydd) **wedi nodi eu bod wedi profi twf dros y 12 mis diwethaf yn ystod ail chwarter 2025**, gan aros ar yr un lefel ag a adroddwyd yn y chwarter blaenorol.

Cynyddodd nifer **y busnesau a fu farw yng Nghymru yn fwy na nifer y busnesau a gafodd eu geni yn ystod ail chwarter 2025**. Cyfanswm y busnesau a anwyd yng Nghymru yn ail chwarter 2025 oedd 2,550, tra bod nifer y busnesau a fu farw yng Nghymru yn ystod yr un cyfnod yn 2,720.

Summary

Adroddodd yr Arolwg Effeithiau ac Amodau Busnes a adwaenir yn gryno fel (BICS) y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer 1 i 31 Gorffennaf 2025 fod **38.8% o fusnesau Cymru yn disgwyl y byddai eu perfformiad yn gwella yn y flwyddyn i ddod** (DU 32.3%).

Dangosodd data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol fod **prisiau tai yng Nghymru wedi cynyddu 2.0% yn y 12 mis hyd at fis Gorffennaf 2025**, a bod pris cyfartalog tai yng Nghymru ym mis Gorffennaf 2025 yn £209,178.

Cofrestrodd y **Mynegai Rheolwyr Prynu Adeiladu** S&P Global UK **45.5 mewn gweithgaredd adeiladu cyffredinol ym mis Awst 2025**, islaw'r marc 50 sy'n gwahaniaethu rhwng ehangu a chrebachiad.

Y cyflenwad a'r galw am gyllid

Adroddodd benthycwyr fod **argaeledd credyd ar gyfer busnesau bach a chanolig wedi cynyddu**, a chynyddu ychydig ar gyfer busnesau mawr, yn ystod Ch2 2025. Yn y cyfamser, adroddodd benthycwyr hefyd fod **y galw am fenthycha gan fusnesau bach a chanolig wedi cynyddu ychydig**, a bod y galw gan fusnesau mawr wedi newid, yn ystod Ch2 2025.

Adroddodd UK Finance fod **benthycha gros i fusnesau bach a chanolig y DU yn ystod chwarter 2 2025 gan brif fanciau'r stryd fawr wedi cynyddu 8% flwyddyn ar ôl blwyddyn**, ac mai dyma'r chweched cynnydd chwarterol yn olynol.

Canfu'r Monitor Cyllid Busnesau Bach a Chanolig (Monitor Cyllid BBaCh) fod 42% **o fusnesau bach a chanolig y DU wedi defnyddio rhyw fath o gyllid allanol yn ystod ail chwarter 2025**, i lawr o 44% yn ystod cyntaf chwarter 2025. Cardiau credyd oedd y math mwyaf cyffredin o gyllid busnes a ddefnyddir gan fusnesau bach a chanolig o hyd.

Roedd y **gyfradd llog effeithiol ar fenthyciadau newydd i fusnesau bach a chanolig yn 5.80% ym mis Gorffennaf 2025**, i lawr o 7.60% ym mis Gorffennaf 2024.

Symudodd stoc **y benthyciadau i fusnesau bach a chanolig Cymru yn ôl tuag at lefelau cyn y pandemig yn 2024**, gyda chyfanswm y benthyciadau i fusnesau bach a chanolig Cymru o £3.854bn yn ystod ail hanner 2024.

Datgelodd dadansoddiad o gronfa ddata Bureau van Dijk FAME o ddata Tŷ'r Cwmnïau fod **amcangyfrifon o 6.5% o fusnesau bach a chanolig yng Nghymru yn y categori sgôr credyd risg uchaf ym mis Medi 2025**, i fyny o 5.9% ym mis Medi 2024.

Gweithgaredd Banc Datblygu Cymru

Gwnaeth Banc Datblygu Cymru **131 o fuddsoddiadau yn chwarter cyntaf 2025/26**, gyda chyfanswm gwerth o bron i £26m.

Roedd nifer a gwerth y buddsoddiadau, a'r swyddi cysylltiedig a grëwyd neu a ddiogelwyd yn 2025/26Ch1 yn is na rhai y chwarteri blaenorol, pan oedd lefelau uchel o ran gweithgarwch buddsoddi ond **maent yn gyson â chanlyniadau'r chwarter cyntaf blaenorol**.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu adolygiad o ddata economaidd sy'n berthnasol i ddatblygiad busnesau bach a chanolig yng Nghymru, a chrynodeb o weithgareddau buddsoddi Banc Datblygu Cymru yn ystod chwarter cyntaf blwyddyn ariannol 2025/26. Mae'r adroddiad yn cynnwys sylwadau ar y cyd-destun economaidd byd-eang a lleol a'r amodau sy'n effeithio ar y cyflenwad a'r galw am gyllid yng Nghymru.

Mae adrannau 2-4 o'r adroddiad hwn yn darparu'r cyd-destun macro-economaidd y mae busnesau bach a chanolig Cymru yn gweithredu ynddo ac yn archwilio ffactorau sy'n ymwneud â'r galw am gyllid busnesau bach a chanolig, a'r cyflenwad a'r gost ohono. Mae adran 5 yn crynhoi gweithgareddau Banc Datblygu Cymru. Mae'r adran olaf yn darparu rhai casgliadau cyffredinol i'r adroddiad.

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig i raddau helaeth ar ddata sydd ar gael i'r cyhoedd (a adroddir yn gyffredinol mewn blynyddoedd calendr) ynghyd â dadansoddiad arbennig o ddata a ddarparwyd gan Fanc Datblygu Cymru (a adroddir yn bennaf mewn blynyddoedd ariannol). Oherwydd gwahaniaethau mewn cyfnodau adrodd, bydd rhywfaint o anghydweddiad amserol bach o ddata yn yr adroddiad hwn.

Cwblhawyd drafftio'r adroddiad hwn ar 23 Medi 2025.

Mae Dirnad Economi Cymru yn bwriadu cyhoeddi cyfres o allbynnau yn y misoedd nesaf, gan gynnwys adroddiadau ar yr hyn a ganlyn:

- Llywodraethu a chyllido mentrau dan arweiniad y gymuned yng Nghymru.
- Rôl 'arwyr cynhyrchiant' yn economi Cymru: eu cyfraniad at dwf a chynhyrchiant.
- Buddsoddi cynhyrchiol yng Nghymru: beth sy'n llunio penderfyniadau buddsoddi?
- Bancio ar-lein, bancio perthynas a benthyca i fusnesau bach a chanolig Cymru.

- Uwchraddiwyd rhagolygon twf byd-eang y Gronfa Ariannol Ryngwladol ar gyfer 2025 0.2 pwynt canran i 3.0%, tra bod rhagamcan 2026 wedi'i uwchraddio 0.1 pwynt canran i 3.1%.
- Ym mis Medi 2025 pleidleisiodd Banc Lloegr i gadw Cyfradd y Banc ar 4.0%, gyda hyn yn dilyn toriad o 0.25 pwynt canran ym mis Awst 2025.
- Roedd chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) deuddeg mis yn y DU yn 3.8% ym mis Awst 2025, heb newid o fis Gorffennaf 2025.
- Yn y chwarter rhwng mis Mai a mis Gorffennaf 2025, roedd cyfradd anweithgarwch economaidd y DU yn 21.1%. Yng Nghymru, y ffigur cymharol oedd 25.6%.

Rhagolygon byd-eang

Yn Niweddariad Rhagolygon Economaidd y Byd¹ gan y Gronfa Ariannol Ryngwladol (a adwaenir yn gryno fel yr IMF) a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2025, y rhagolygon ar gyfer cynnyrch domestig gros (CDG) y byd oedd y byddai twf yn cynyddu 3.0% yn 2025, sef diwygiad i fyny o 0.2 pwynt canran o'r rhagolygon hynny yn Rhagolygon Economaidd y Byd² ym mis Ebrill 2025. Y rhagolygon ar gyfer 2026 oedd twf byd-eang o 3.1%, sef diwygiad i fyny o 0.1 pwynt canran. Nododd yr IMF nifer o resymau dros y rhagamcanion ychydig yn fwy optimistaidd hyn, gan gynnwys "blaenlwytho" uwch na'r disgwyl o rai llifau masnach wrth ragweld tariffau uwch i ddod, cyfraddau tariff effeithiol cyfartalog yr Unol Daleithiau yn is nag a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2025, a gwelliant cyffredinol mewn amodau ariannol. Roedd rhagolygon yr IMF yn cyfateb yn eithaf agos i'r rhagamcanion yn adroddiad Rhagolygon Economaidd³ y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (a

adwaenir fel yr OECD) a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2025, gyda rhagolygon twf byd-eang o 2.9% ar gyfer 2025 a 2026.

Yn ôl yr IMF⁴, rhagwelwyd y byddai twf CDG yn yr Unol Daleithiau yn 1.9% yn 2025, cyn codi i 2.0% yn 2026, gyda'r ffigurau cymharol ar gyfer ardal yr Ewro yn 1.0% yn 2025 ac 1.2% yn 2026. Yn y DU, uwchraddiwyd y rhagamcan twf ar gyfer 2025 0.1 pwynt canran o'i gymharu â'r adroddiad rhagolygon ym mis Ebrill 2025, i 1.2%, a chyda rhagamcan o dwf o 1.4% yn 2026.

Roedd y risgiau i weithgarwch economaidd byd-eang a nodwyd yn adroddiad Rhagolygon Economaidd y Byd yr IMF yn cynnwys adlam mewn cyfraddau tariff effeithiol a arweiniodd at dwf llai; gallai ansicrwydd cynyddol effeithio mwy ar weithgarwch economaidd; a "gallai diffygion cyllidol mwy neu fwy o osgoi risg godi cyfraddau llog tymor hir a thynhau amodau ariannol byd-eang".⁵

¹ <https://www.imf.org/en/Publications/WEO/Issues/2025/07/29/world-economic-outlook-update-july-2025>

² <https://www.imf.org/en/Publications/WEO/Issues/2025/04/22/world-economic-outlook-april-2025>

³ https://www.oecd.org/en/publications/oecd-economic-outlook-volume-2025-issue-1_83363382-en/full-report.html

⁴ <https://www.imf.org/en/Publications/WEO/Issues/2025/07/29/world-economic-outlook-update-july-2025>

⁵ <https://www.imf.org/en/Publications/WEO/Issues/2025/07/29/world-economic-outlook-update-july-2025>

Pwysau chwyddiant y DU

Yn ôl data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, roedd chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr (MPD) deuddeg mis yn y DU yn 3.8% ym mis Awst 2025, yr un ffigur ag yn y deuddeg mis hyd at Orffennaf 2025.⁶ Arweiniodd cyfraniadau gwrthbwyso at gyfradd chwyddiant flynyddol MPD heb ei newid yn y flwyddyn hyd at Awst 2025. Daeth y cyfrannwr mwyaf tuag i lawr at gyfradd chwyddiant flynyddol MPD o drafnidiaeth (yn enwedig prisiau awyr), tra bod y cyfranwyr mwyaf tuag i fyny yn cynnwys bwytai a gwestai, a bwyd.

Gellir dadlau bod Mynegai Prisiau Defnyddwyr Craidd yn ddangosydd gwell o'r graddau y gall chwyddiant fod wedi'i wreiddio yn yr economi

gan ei fod yn eithrio cydrannau anwadal y Mynegai Prisiau Defnyddwyr fel prisiau ynni a bwyd. Cynyddodd Mynegai Prisiau Defnyddwyr Craidd 3.6% yn y deuddeg mis hyd at Awst 2025, tra bod y ffigur cymharol yn y deuddeg mis hyd at Orffennaf 2025 yn 3.8%.⁷

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd Mynegai Prisiau Cynhyrchwyr y Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi'i oedi oherwydd bod problem wedi'i nodi gyda'r dulliau cysylltu cadwyn a ddefnyddir i gyfrifo'r mynegai.⁸ Mae'r data diweddaraf sydd ar gael yn berthnasol i'r flwyddyn hyd at fis Ionawr 2025 ac fe'i trafodwyd yn fersiwn Mehefin 2025 o'r adroddiad hwn.⁹

Banc Lloegr yn cadw'r Gyfradd Banc yn sefydlog ym mis Medi 2025

Ar ôl toriad o 0.25 pwynt canran ym mis Awst 2025, pleidleisiodd Pwyllgor Polisi Ariannol (PPA) Banc Lloegr i gadw Cyfradd y Banc ar 4.0% ym mis Medi 2025.¹⁰ Nododd y PPA yn ei adroddiad cryno ar gyfer mis Medi 2025 y bydd "amseriad a chyflymder gostyngiadau yn y dyfodol yng nghyfyngoldeb polisi yn dibynnu ar y graddau y

bydd pwysau dadchwyddiant sylfaenol yn parhau i leddfu". Yn ogystal â'r penderfyniad ynghylch y gyfradd llog, cyhoeddodd y Banc gynlluniau i arafu'r gyfradd y mae'n gwerthu bondiau'r Llywodraeth arni (y broses a elwir yn dynhau meintiol) i leihau unrhyw aflonyddwch yng ngweithrediad y marchnadoedd ariannol.¹¹

⁶ <https://www.ons.gov.uk/economy/inflationandpriceindices/bulletins/consumerpriceinflation/august2025>

⁷ <https://www.ons.gov.uk/economy/inflationandpriceindices/bulletins/consumerpriceinflation/august2025>

⁸ <https://www.ons.gov.uk/news/statementsandletters/producerpricespublicationsupdate>

⁹ [https://developmentbank.wales/sites/default/files/2025-06/EIW Quarterly report Q3 CY FINAL 0.pdf](https://developmentbank.wales/sites/default/files/2025-06/EIW%20Quarterly%20report%20Q3%20CY%20FINAL%200.pdf)

¹⁰ <https://www.bankofengland.co.uk/monetary-policy-summary-and-minutes/2025/sepember-2025>

¹¹ <https://www.bbc.co.uk/news/articles/cge2q7wvyz3a>

Cynnydd mewn CDG y DU yn y tri mis hyd at fis Gorffennaf 2025

Amcangyfrifir bod cynnyrch domestig gros (CDG) real y DU wedi tyfu 0.2% yn y tri mis hyd at fis Gorffennaf 2025 o'i gymharu â'r tri mis hyd at fis Ebrill 2025.¹² Mae'r SYG yn nodi bod y gyfradd twf hon wedi arafu ers y brig o dwf o 0.8% yn y tri mis hyd at fis Ebrill 2025.

Y prif ysgogydd twf CDG yn y tri mis hyd at fis Gorffennaf 2025 oedd y sector gwasanaethau, gyda chynnydd o 0.4% mewn allbwn o'i gymharu â'r tri mis hyd at fis Ebrill 2025. Y cyfranwyr cadarnhaol mwyaf yn ôl is-sector, i'r twf mewn allbwn gwasanaethau yn y tri mis hyd at fis Gorffennaf 2025, oedd mewn gweithgareddau iechyd dynol a gwaith cymdeithasol (i fyny 1.5%), gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol (cynnydd o 1.2%) a gwybodaeth a chyfathrebu (i fyny 1.4%).

Amcangyfrifir bod allbwn cynhyrchu'r DU wedi gostwng 1.3% yn y tri mis hyd at fis Gorffennaf 2025 o'i gymharu â'r tri mis hyd at fis Ebrill 2025, yn dilyn gostyngiad o 0.3% yn y tri mis hyd at fis Mehefin 2025. Y prif gyfrannwr at y dirywiad hwn oedd y sector gweithgynhyrchu (i lawr 1.1%), tra bod gostyngiadau hefyd yn y cyfnod tri mis mewn cyflenwad trydan, nwy, stêm ac aerdymheru (gostyngiad o 5.1%), a mwyngloddio a chwarela (i lawr 1.8%).

Mae amcangyfrifon misol o CDG yn datgelu nad oedd allbwn yn economi'r DU wedi dangos unrhyw dwf ym mis Gorffennaf 2025, yn dilyn cynnydd o 0.4% ym mis Mehefin 2025.¹³

Gostyngodd buddsoddiad busnes y DU yn 2025Ch2

Yn ôl amcangyfrifon dros dro a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, gostyngodd buddsoddiad busnes y DU 4.0% yn ystod

2025Ch2, ac roedd 0.1% yn uwch na'r lefel yn 2024Ch2.¹⁴ Yn 2025Ch1 bu cynnydd o 3.9% mewn buddsoddiad busnes y DU.¹⁵

¹² <https://www.ons.gov.uk/economy/grossdomesticproductgdp/bulletins/gdpmonthlyestimateuk/july2025>

¹³ <https://www.ons.gov.uk/economy/grossdomesticproductgdp/bulletins/gdpmonthlyestimateuk/july2025>

¹⁴ <https://www.ons.gov.uk/economy/grossdomesticproductgdp/bulletins/businessinvestment/apriltojune2025provisionalresults>

¹⁵ <https://www.ons.gov.uk/economy/grossdomesticproductgdp/bulletins/businessinvestment/januarytomarch2025revisedresults>

Nifer y swyddi gwag yn y DU yn parhau i ostwng

Gostyngodd yr amcangyfrif o nifer y swyddi gwag yn y DU i 728,000 yn y cyfnod rhwng Mehefin ac Awst 2025, gostyngiad o 10,000.¹⁶ Rhwng Mehefin ac Awst 2025 roedd cyfanswm y swyddi gwag i lawr 119,000 o lefel blwyddyn yn ôl, a 67,000 islaw eu lefel rhwng Ionawr a Mawrth 2020 (cyn y coronafeirws, COVID-19). Nododd y SYG fod nifer y swyddi gwag bellach wedi gostwng o'i gymharu â'r tri mis blaenorol am fwy na thair blynedd. Fel y nodwyd yn adroddiad diwethaf Dirnadaeth Economaidd Cymru, mae'n bosibl bod y gostyngiad mewn swyddi gwag yn gysylltiedig â'r cynnydd yn yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol a'r Cyflog Byw Cenedlaethol o fis Ebrill 2025, gan ychwanegu at gostau i gyflogwyr ac arwain at rywfaint o leihau recriwtio.

Mae amcangyfrifon cynnar Gwybodaeth Amser Real Talu Wrth Ennill yn dangos gostyngiad cyffredinol yn nifer y gweithwyr cyflog yn y DU ar gyfer Awst 2025 i 30.3m, gostyngiad o 127,000 o weithwyr (neu 0.4%) o'i gymharu â'r ffigur ar gyfer Awst 2024.¹⁷ Yn y flwyddyn hyd at Awst 2025, roedd y cynnydd mwyaf mewn gweithwyr cyflog yn y DU yn y sector iechyd a gwaith

cymdeithasol (cynnydd o 80,000 o weithwyr neu 1.8%) tra bod y gostyngiad mwyaf yn y sector llety a gweithgareddau gwasanaeth bwyd (gostyngiad o 90,000 neu -4.1%).¹⁸ Gwelwyd gostyngiad mewn gweithwyr cyflog rhwng Awst 2024 ac Awst 2025 hefyd mewn nifer o sectorau eraill, gan gynnwys gweithgynhyrchu, adeiladu, cyfanwerthu a manwerthu, gwybodaeth a chyfathrebu, gwasanaethau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol, a gweinyddol a chymorth.

Gostyngodd nifer y gweithwyr cyflogedig yng Nghymru 6,100 (neu -0.5%) i 1.31m yn y flwyddyn hyd at Awst 2025.¹⁹ Mae data rhanbarthol y DU ar weithwyr cyflogres yn ôl sector yn cael ei ddiweddar'u llai aml, ond mae'r data ar gyfer Gorffennaf 2025 yn dangos bod y gostyngiad mewn cyfaint gweithwyr cyflogres yng Nghymru dros y flwyddyn yn fwyaf amlwg mewn gwasanaethau llety a bwyd (gostyngiad o 5,000 o weithwyr neu -5.2%), cyfanwerthu a manwerthu (gostyngiad o 2,850 o weithwyr, neu -1.6%), a gweithgynhyrchu (-1,830 o weithwyr, neu -1.5%).²⁰

Newidiadau yng nghyfraddau diweithdra yn y DU ac yng Nghymru

Am y cyfnod o dri mis hyd at fis Gorffennaf 2025, amcangyfrifwyd bod cyfradd ddiweithdra'r DU (pawb 16+ oed, wedi'i haddasu'n dymhorol) yn 4.7%, yn ôl ffigurau gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Roedd hyn yn cynrychioli cynnydd o 0.5 pwynt canran o'i gymharu â'r ffigur ar gyfer y chwarter rhwng mis Mai 2024 a mis Gorffennaf 2024.²¹

Y cyfraddau diweithdra rhanbarthol uchaf yn y DU yn y tri mis a ddaeth i ben ym mis Gorffennaf 2025 oedd yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr (6.0%), Llundain (5.9%), Gogledd Orllewin Lloegr (5.2%), Gogledd Ddwyrain Lloegr (5.0%), a Swydd Efrog a'r Humber (4.8%), tra bod y cyfraddau isaf yng Ngogledd Iwerddon (2.2%), De Orllewin Lloegr (3.3%), yr Alban (3.5%), a De Ddwyrain

¹⁶ <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/bulletins/jobsandvacanciesintheuk/september2025>

¹⁷ <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/bulletins/earningsandemploymentfrompayasyouearnrealtimeinformationuk/september2025>

¹⁸ <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/datasets/realtimeinformationstatisticsreferencetableseasonallyadjusted>

¹⁹ <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/datasets/realtimeinformationstatisticsreferencetableseasonallyadjusted>

²⁰ <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/datasets/realtimeinformationstatisticsreferencetableseasonallyadjusted/current>

²¹ <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/bulletins/employmentintheuk/latest#unemployment>

Lloegr (3.8%).²² Yng Nghymru, y gyfradd ddiweithdra ar gyfer y cyfnod o dri mis hyd at fis Gorffennaf 2025 oedd 4.7%. Roedd hyn yn

cynrychioli cynnydd o 0.7 pwynt canran o'i gymharu â'r gyfradd ddiweithdra yn ystod yr un cyfnod y llynedd (Mai 2024 i fis Gorffennaf 2024).

Nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau diweithdra yn gostwng yn y DU a Chymru

Yn ystod y flwyddyn hyd at Awst 2025, gostyngodd nifer y bobl a oedd yn hawlio budd-daliadau sy'n gysylltiedig â diweithdra yn y DU (heb eu haddasu'n dymhorol) 75,400 i 1.70m o bobl.²³

Yng Nghymru, hawliodd 63,880 o bobl fudd-daliadau sy'n gysylltiedig â diweithdra ym mis Awst 2025 (sy'n cyfateb i 3.3% o'r boblogaeth breswyl 16 i 64 oed, heb ei haddasu'n dymhorol, o'i gymharu â ffigur o 4.0% ar gyfer y DU), gostyngiad o 4,595 yn nifer yr hawlwr o'i gymharu ag Awst 2024.²⁴ Dylid nodi bod y

gwerthoedd ar gyfer Awst 2025 yn rhai dros dro ar adeg ysgrifennu.

Yr awdurdodau unedol yng Nghymru gyda'r gyfran uchaf o'r boblogaeth o oedran gweithio yn hawlio budd-daliadau sy'n gysylltiedig â diweithdra, yn ôl y data ar gyfer Awst 2025, oedd Casnewydd (4.4%), Blaenau Gwent (4.0%), Caerdydd (3.8%), Torfaen (3.7%), Conwy (3.6%), a Sir Ddinbych (hefyd 3.6%) a'r rhai gyda'r cyfrannau isaf oedd Sir Fynwy (2.3%), Ceredigion (2.4%), Powys (2.6%), Gwynedd (2.7%), Pen-y-bont ar Ogwr (2.9%), a Sir Gaerfyrddin (hefyd 2.9%).

Anweithgarwch economaidd yn parhau i ostwng yn y DU a Chymru

Yn ôl data Arolwg y Llafurlu y SYG, roedd cyfradd anweithgarwch economaidd y DU (wedi'i haddasu'n dymhorol, pawb 16 i 64 oed) yn y cyfnod rhwng Mai a Gorffennaf 2025 yn 21.1%. Roedd hyn 0.8 pwynt canran yn is na'r gyfradd flwyddyn yn ôl (Mai i Orffennaf 2024),²⁵ gyda'r SYG yn nodi bod y gostyngiad blynyddol hwn

mewn anweithgarwch wedi'i yrru gan y rhai oedd yn gofalu am deulu a chartref, neu fyfyrwyr.

Yn y cyfnod rhwng mis Mai a mis Gorffennaf 2025, gostyngodd y gyfradd anweithgarwch economaidd yng Nghymru 1.5 pwynt canran o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol i 25.6%.²⁶

²² <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/bulletins/regionallabourmarket/latest>

²³ <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peoplenotinwork/outofworkbenefits/datasets/claimantcountcla01>

²⁴ <https://stats.wales.gov.wales/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/People-and-Work/Unemployment/Claimant-Count/claimantcount-by-welsh-local-areas-variable-month>

²⁵ <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/bulletins/employmentintheuk/latest#economic-inactivity>

²⁶ <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/bulletins/regionallabourmarket/latest>


Cynnydd yn allbwn diwydiant adeiladu Cymru o 2024Ch4 i 2025Ch1

Mae Ffigur 2.1 yn dangos y duedd ym mynegeion cynhyrchu, adeiladu a gwasanaethau marchnad Cymru o 2022Ch1 i 2025Ch1. Roedd mynegai cynhyrchu Cymru yn 2025Ch1 5.3% yn is na lefel 2022 ar gyfer Cymru. Roedd y ffigur cymharol ar gyfer y DU 1.2% yn is na'i lefel yn 2022. Ar ôl pum chwarter yn olynol o ddirywiad ym mynegai adeiladu Cymru hyd at 2024Ch4, bu cynnydd yn 2025Ch1, er iddo aros 12.9% yn is na lefel 2022 ar gyfer Cymru. Roedd y ffigur

cymharol ar gyfer y DU 3.6% yn uwch na lefel 2022. Nododd sylwebyddion diwydiant ar gyfer y sector adeiladu yng Nghymru fod y gostyngiadau diweddar mewn cyfraddau llog wedi bod yn "rhyddhad mawr ei angen ar gyfer y farchnad adeiladu".²⁷ Bu cynnydd cymedrol ym mynegai gwasanaethau marchnad Cymru dros y cyfnod rhwng 2022Ch1 a 2025Ch1, sef 1.5% uwchlaw lefel 2022 yn 2025Ch1, gyda'r ffigur cymharol ar gyfer y DU yn 2.1% uwchlaw lefel 2022.

Ffigur 2.1.

Mynegeion allbwn Cymru: tuedd 2022Ch1 - 2025Ch1 (2022=100)



Ffynhonnell: Stats Cymru, Mynegeion Cynhyrchu ac Adeiladu Cymru (2022=100) yn ôl adran a blwyddyn a Mynegai Gwasanaethau Marchnad (2022=100) yn ôl blwyddyn ac ardal.

²⁷ <https://www.rlbinsights.com/publications/construction-market-intelligence-cmi-q1-2025/wales>

Ganol mis Medi 2025, cyhoeddwyd y byddai Cymru yn derbyn cyfran o gronfa gwerth £250 miliwn i dyfu'r diwydiant amddiffyn yn y rhanbarth.²⁸ Nododd Llywodraeth y DU y byddai'r "Fargen Twf Amddiffyn", y byddai pump ohonynt wedi'u lleoli o amgylch y DU i ddechrau, yn adeiladu ar gryfderau sectoraidd lleol â

photensial twf uchel - megis awyrofod, cerbydau awyr di-griw, a systemau ymreolus yng Nghymru - gan greu cyfleoedd swyddi yn amrywio o brentisiaethau i bobl ifanc, i swyddi peirianeg medrus iawn. Disgwylir i Fargen Twf Amddiffyn Cymru gael ei datgelu yn y misoedd nesaf.²⁹

Gostyngodd gwerth nwyddau a allforiwyd o Gymru yn y flwyddyn hyd at ail chwarter 2025.

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cynghori y dylid bod fymryn yn ofalus wrth ddehongli data masnach gan eu bod fel arfer yn cael eu cyhoeddi mewn prisiau cyfredol neu enwol (sy'n golygu nad ydynt wedi'u haddasu i gael gwared ar effeithiau chwyddiant).

Ar gyfer y cyfnod hyd at ail chwarter 2025, mae data masnach nwyddau ar gyfer rhanbarthau'r DU yn dangos bod gostyngiad wedi bod yng ngwerth allforion o holl wledydd y DU, ac eithrio'r Alban, yn y deuddeg mis a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2025 o'i gymharu â'r deuddeg mis blaenorol.³⁰ Gostyngodd gwerth nwyddau a allforiwyd o Gymru 8.2% i £17.07bn yn y deuddeg mis a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2025 (o'i gymharu â gostyngiad o 1.1% yn Lloegr a 3.5% yng Ngogledd Iwerddon, ond cynnydd o 6.0% yn yr Alban).

Dros y flwyddyn hyd at fis Mehefin 2025, cynyddodd cyfanswm gwerthoedd allforio yn ôl cynhyrchion yng Nghymru ar gyfer peiriannau ac offer trafniadaeth i £9.24bn o £8.29bn yn y deuddeg mis blaenorol, cynnydd o 11.4%. Fodd bynnag, gostyngodd gwerthoedd allforio mewn sawl categori cynnyrch yng Nghymru dros yr un cyfnod.³¹ Gostyngodd gwerth allforio nwyddau

wedi'u gweithgynhyrchu a ddosbarthwyd yn bennaf yn ôl deunydd i £2.35bn yn y flwyddyn a ddaeth i ben yn 2025Ch2 yng Nghymru, gostyngiad o 12.6%. Gostyngodd cyfanswm allforion cemegau a chynhyrchion cysylltiedig i £2.27bn yn y flwyddyn a ddaeth i ben yn 2025Ch2, gostyngiad o 3.4% o'i gymharu â'r deuddeg mis blaenorol.³²

Cyfanswm nifer yr allforwyr yng Nghymru yn 2025Ch2 oedd 3,077, gostyngiad o 115 (neu 3.6%) o'i gymharu â 2024Ch2 (gan ddefnyddio'r Dull Rhif Cyfan).³³ Yn yr un cyfnod, bu gostyngiad o 5.6% ar gyfer y DU gyfan.³⁴ Cyhoeddodd Cyllid a Thollau EM ddata cyfaint masnach ar gyfer y flwyddyn hyd at 2025Ch2. dangosodd fod màs net o 4.07 biliwn cilogram wedi'i allforio o Gymru, gostyngiad o 40.6% o'i gymharu â'r deuddeg mis blaenorol.³⁵

Dros y flwyddyn hyd at ail chwarter 2025, gostyngodd cyfanswm gwerth allforion Cymru yn ôl cynhyrchion i'r Unol Daleithiau i £2.16bn, o £2.68bn yn y deuddeg mis blaenorol, sef gostyngiad o 19.5%.³⁶ Adroddodd y SYG, gyda'r newidiadau sylweddol parhaus ym mholisi masnach ryngwladol yr Unol Daleithiau, fod heriau wedi codi i fusnesau'r DU. Datgelodd

²⁸ <https://www.gov.uk/government/news/new-defence-growth-deals-created-to-boost-local-economies-under-major-sector-plan>

²⁹ <https://businessnewswales.com/wales-to-share-250m-funding-to-grow-defence-industry/>

³⁰ <https://www.uktradeinfo.com/trade-data/regional/2025/uk-regional-trade-in-goods-statistics-second-quarter-2025/>

³¹ Mae'r grŵp cynnyrch hwn yn cynnwys metelau a chynhyrchion metel, papur a chardbord a chynhyrchion rwber.

³² <https://www.gov.wales/international-goods-trade-interactive-dashboards>

³³ "Dull y rhif cyfan": Mae busnes yn cyfrif fel 1 ym mhob rhanbarth lle mae ganddo weithwyr.

³⁴ <https://www.uktradeinfo.com/trade-data/regional/2025/uk-regional-trade-in-goods-statistics-second-quarter-2025/#datasets>

³⁵ <https://www.gov.wales/international-goods-trade-interactive-dashboards>

³⁶ <https://www.gov.wales/international-goods-trade-interactive-dashboards>

fersiwn mis Medi 2025 o adroddiad y SYG, Mewnwelediadau busnes ac effaith ar economi'r DU, fod 33% o fusnesau'r DU â 10 neu fwy o weithwyr a oedd wedi allforio nwyddau yn ystod y 12 mis diwethaf wedi nodi ddiwedd mis Awst eu bod wedi cael eu heffeithio gan dariffau'r Unol Daleithiau yn ystod y mis diwethaf.³⁷

Yn y flwyddyn hyd at fis Mehefin 2025, gostyngodd gwerth nwyddau a fewnforiwyd yng Nghymru 2.6% i £20.57bn o'i gymharu â'r deuddeg mis blaenorol. Roedd hyn yn cymharu â chynnydd yng ngwerth mewnforion yn yr Alban o 3.9%, yn Lloegr o 1.3%, a Gogledd Iwerddon o 6.6%.³⁸

Yng Nghymru, cyfanswm y mewnforwyr yn 2025Ch2 oedd 8,051, gostyngiad o 9.0% o'i gymharu â'r ffigur yn 2024Ch2. Yn y DU, gostyngodd cyfanswm y mewnforwyr 1.1% dros yr un cyfnod.³⁹ Dangosodd data cyfaint masnach a gyhoeddwyd gan Gyllid a Thollau EM, ar gyfer y flwyddyn hyd at 2025Ch2, fod màs net o 15.28 biliwn cilogram wedi'i fewnforio i Gymru, gostyngiad o 16.3% o'r flwyddyn flaenorol hyd at ddiwedd 2024Ch2.⁴⁰

Rhagolygon economi'r DU

Cyhoeddwyd cymhariaeth o ragolygon annibynnol a dderbyniwyd rhwng 1 a 12 Medi 2025 yn Rhagolygon Trysorlys EM ar gyfer Economi'r DU ym mis Medi 2025.⁴¹ Cyfartaledd y rhagolygon newydd ar gyfer twf CDG y DU yn 2025 oedd 1.2%, yr un fath â'r hyn a ragwelwyd gan gyfartaledd y rhagolygon newydd yng nghyhoeddiad Awst 2025.⁴²

Mae Atodiad 2 i'r adroddiad hwn yn dangos crynodeb o ragolygon CDG dethol ar gyfer y DU ar gyfer 2025 a 2026, ynghyd â rhagolygon ar gyfer cyfradd Ddiweithdra'r Arolwg y Llafurlu, a'r twf mewn prisiau ar gyfer chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr (MPD) a Mynegai Prisiau Manwerthu (MPM).

³⁷ <https://www.ons.gov.uk/businessindustryandtrade/business/businessservices/bulletins/businessinsightsandimpactontheeconomy/4september2025>

³⁸ <https://www.uktradeinfo.com/trade-data/regional/2025/uk-regional-trade-in-goods-statistics-second-quarter-2025/>

³⁹ <https://www.uktradeinfo.com/trade-data/regional/2025/uk-regional-trade-in-goods-statistics-second-quarter-2025/#datasets>

⁴⁰ <https://www.gov.wales/international-goods-trade-interactive-dashboard>

⁴¹ <https://www.gov.uk/government/statistics/forecasts-for-the-uk-economy-september-2025>

⁴² <https://www.gov.uk/government/statistics/forecasts-for-the-uk-economy-august-2025>

- Mae hyder busnesau bach yn gostwng yn ôl yn 2025Ch2.
- Adroddodd 28% o BBaCh am dwf yn y 12 mis diwethaf yn ystod 2025Ch2.
- Roedd marwolaethau busnesau yng Nghymru yn fwy na genedigaethau busnesau yn ystod 2025Ch2.


Hyder busnesau bach yn gostwng yn ail chwarter 2025

Disgynnodd Mynegai Busnesau Bach (MBB) y DU gan Ffederasiwn Busnesau Bach (FfBB)⁴³ yn ôl i -44.1 yn ystod 2025Ch2 ar ôl profi adferiad rhannol yn ystod 2025Ch1, er iddo aros i fyny o'i isafswm pedair blynedd o

-64.5 yn ystod 2024Ch4. Serch hynny, mae hyder busnesau bach yn parhau i fod yn isel iawn⁴⁴. Mae Ffigur 3.1 yn dangos tuedd MBB y FfBB rhwng 2023Ch2 a 2025Ch2.

Ffigur 3.1.

Mynegai Hyder Busnesau Bach y DU, 2023Ch2 - 2025Ch2



Ffynhonnell: Mynegai Busnesau Bach y FfBB⁴⁵

⁴³ Mae'r FfBB yn egluro: 'Mae'r Mynegai Busnesau Bach yn fynegai pwysol o'r ymatebion i'r cwestiwn: "Gan ystyried perfformiad cyffredinol eich busnes, ac anwybyddu unrhyw amrywiadau tymhorol arferol ar yr adeg hon o'r flwyddyn, sut ydych chi'n gweld rhagolygon busnes dros y tri mis nesaf, o'i gymharu â'r tri mis blaenorol?" Rhoddir y pwysoliad +2, gwelliant ychydig +1, tua'r un fath â 0, ychydig yn waeth -1, a llawer yn waeth -2 i gyfran y cwmnïau sy'n nodi gwelliant mawr; mae'r Mynegai Busnesau Bach yn deillio o swm y ffactorau hyn'. Mae'r FfBB yn egluro bod maint y sampl yng Nghymru yn rhy fach i gyhoeddi data sydd wedi'i gyfyngu i Gymru (sef hefyd yr achos yng Ngogledd Iwerddon).

⁴⁴ Mynegai Busnesau Bach y FfBB, 2025Ch2 <https://www.fsb.org.uk/resources/reports/small-business-index>

⁴⁵ Mynegai Busnesau Bach y FfBB, 2025Ch2 op. cit.

Yn 2025Ch2, roedd balans net busnesau bach a oedd yn nodi twf refeniw yn -26.8%, gostyngiad bach ar y -25.4% a nodwyd yn y chwarter blaenorol. Gwaethygodd disgwyliadau ar gyfer twf yn y dyfodol hefyd yn 2025Ch2 gyda balans net o -14.8%, i lawr o -8.4% yn 2025Ch1.

Busnesau llety a gwasanaeth bwyd oedd y sector mwyaf pesimistaidd yn 2025Ch2 gyda darlleniad MBB o -75.2. Er i besimistiaeth leihau yn y sectorau gwybodaeth a chyfathrebu, gweithgynhyrchu, a chyfanwerthu a manwerthu yn ystod 2025Ch2, adroddodd pob sector arall am besimistiaeth a oedd yn gwaethygu.

Yr economi ddomestig yw'r prif bryder i BBaCh o hyd

At ei gilydd, yr economi ddomestig oedd y rhwystr i dwf a grybwyllwyd amlaf yn ail chwarter 2025, gyda 63.7% o fusnesau yn disgwyl iddo effeithio ar eu rhagolygon twf. Y baich treth, costau llafur, a galw defnyddwyr oedd y rhwystrau nesaf a grybwyllwyd amlaf i dwf.

Adroddodd Monitor Hyder Busnes (MHB) Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (a adwaenir fel yr ICAEW) ar gyfer 2025Ch2 hefyd ostyngiad pellach yn hyder busnes cyffredinol y DU i -4.2 (o -3.0 yn 2025Ch1), y pedwerydd dirywiad chwarterol yn olynol. Mae'r mynegai'n parhau i fod ymhell islaw ei norm hanesyddol o +5.3⁴⁶. Nododd y MHB fod hyder busnes rhanbarthol yn gymysg, gyda rhai rhanbarthau'r DU yn gostwng ymhellach i negyddol, tra bod eraill yn cofnodi gwelliannau yn ystod 2025Ch2. Er ei fod yn dal i fod mewn tiriogaeth negyddol, profodd hyder busnes yng Nghymru welliant nodedig i -3.7, i fyny o -17.6 yn y chwarter blaenorol, ac uwchlaw cyfartaledd y DU o -4.2. Yn ogystal, roedd 3.7% o fusnesau Cymru a

ymatebodd yn rhagweld gwelliant yn nhwf elw dros y flwyddyn nesaf (yn erbyn cyfartaledd y DU o 4.4%).

Mae Mynegai Busnesau Bach (MBB) diweddaraf y FfBB yn deillio o arolwg a gynhaliwyd ymhlith 1,412 o berchnogion busnesau bach ac unig fasnachwyr, a gynhaliwyd rhwng 10 Mehefin a 24 Mehefin 2025. Nid yw'r MBB yn dychwelyd canlyniad ar gyfer Cymru na Gogledd Iwerddon gan fod y FfBB yn egluro bod meintiau'r samplau rhanbarthol yn rhy fach. Mae canlyniadau arolwg MHB yr ICAEW yn seiliedig ar 1,000 o gyfweiliadau ffôn gyda Chyfrifwyr Siartredig ICAEW sy'n cwmpasu ystod o sectorau, rhanbarthau a meintiau cwmnïau yn y DU. Mae'r arolwg MHB diweddaraf yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 7 Ebrill a 27 Mehefin 2025, cyfnod gwahanol i MBB y FfBB, a all gyfrif yn rhannol am rai o'r amrywiadau yn y canfyddiadau. Efallai mai'r gwahaniaeth methodolegol mwyaf arwyddocaol rhwng y ddau arolwg yw, er bod arolwg yr MBB wedi'i dargedu at fusnesau bach, mae'r MHB yn cwmpasu busnesau o bob maint.

⁴⁶ Mae ICAEW yn egluro: 'mae canlyniadau'r arolwg yn seiliedig ar 1,000 o gyfweiliadau ffôn ymhlith Cyfrifwyr Siartredig ICAEW sy'n cwmpasu ystod o sectorau, rhanbarthau a meintiau cwmnïau yn y DU, gan sicrhau darlun cynrychioliadol o economi'r DU'.

Yn 2025Ch2, nododd 28% o fusnesau bach a chanolig dwf yn y 12 mis blaenorol

Adroddodd dadansoddiad Monitor Cyllid BBaCh y DU ar gyfer 2025Ch2⁴⁷ fod 28% o'r holl fusnesau bach a chanolig yn y DU a ymatebodd (ac eithrio busnesau newydd) wedi nodi twf dros y 12 mis blaenorol, a arhosodd yr un fath â'r chwarter blaenorol. Roedd y twf hwn yn rhagori ar y cyfraddau a welwyd yn 2020 a 2021 ond yn parhau i fod islaw'r lefel nodweddiadol cyn-bandemig o tua 40 %. Wedi'u dadansoddi yn ôl maint, profodd 45% o fusnesau'r DU sy'n cyflogi 50-249 o weithwyr, 45% o'r rhai sy'n cyflogi 10-49, 34% yn cyflogi 1-9, a 25% o'r rhai heb weithwyr, dwf yn ystod 2025Ch2. Adroddodd Monitor Cyllid BBaCh y DU hefyd, yn ystod 2025Ch2, fod 35% o'r busnesau a ymatebodd wedi rhestru costau uwch, 33% wedi rhestru hinsawdd economaidd, a 32% wedi rhestru ansicrwydd gwleidyddol, fel y rhwystrau mwyaf arwyddocaol i dwf BBaChau.

Fel y nodwyd yn flaenorol, dangosodd y data diweddaraf sydd ar gael o ddata Monitor Cyllid Busnesau Bach a Chanolig (Monitor Cyllid BBaCh) ar gyfer Cymru⁴⁸ (H2 2024) fod 25% o fusnesau bach a chanolig yng Nghymru (ac eithrio busnesau newydd) wedi profi twf yn ystod ail hanner 2024, a oedd yn is na'r 30% a brofodd dwf yn ystod H1 2024. Yn ôl maint busnes, profodd 45% o fusnesau sy'n cyflogi 50-249 o weithwyr, 50% o'r rhai sy'n cyflogi 10-49, 34% sy'n cyflogi 1-9, a 24% o'r rhai heb weithwyr, dwf yn ystod 2024 yn gyffredinol. O'r rhain, profodd 39% o fusnesau bach a chanolig trafndiaeth, storio a chyfathrebu dwf yn ystod 2024. Roedd sectorau eraill lle'r oedd canran y busnesau bach a chanolig yng Nghymru wedi profi twf nodedig yn ystod 2024 yn cynnwys: gweithgynhyrchu (38%); cyfanwerthu a manwerthu (31%); gwestai a bwytai (31%); eiddo tiriog, rhentu a chynghor busnes (31%); ac adeiladu (20%).

Roedd marwolaethau busnesau yng Nghymru yn fwy na genedigaethau busnesau yn 2025Ch2

Adroddodd y SYG gyfanswm amcangyfrifedig o 78,015 o enedigaethau busnesau yn y DU yn ystod Ch2025. Adroddodd y SYG hefyd fod nifer y marwolaethau busnesau yn y DU yn Ch2025 yn 74,025. Mae Ffigur 3.2 yn datgelu'r amrywiad mewn genedigaethau a marwolaethau busnesau chwarterol yng Nghymru dros y 13 chwarter diwethaf.⁴⁹ Roedd nifer y

genedigaethau busnesau yng Nghymru yn Ch2025 yn 2,550, tra bod nifer y marwolaethau busnesau yng Nghymru yn ystod yr un cyfnod yn 2,720. Bu gostyngiad mewn genedigaethau busnesau a marwolaethau busnesau yng Nghymru yn ystod Ch2025 o'i gymharu â'r chwarter blaenorol, er bod nifer y marwolaethau yn fwy na'r genedigaethau.


⁴⁷ <https://www.bva-bdrc.com/sme-finance-monitor/#reports>

⁴⁸ Mae data ar gyfer Cymru yn deillio o ddarn o'r Monitor Cyllid Busnesau Bach a Chanolig a ddarparwyd gan Fanc Datblygu Cymru..

⁴⁹ <http://www.ons.gov.uk/businessindustryandtrade/business/activitysizeandlocation/datasets/businessdemographyquarterlyexperimentalstatisticsuk>

Ffigur 3.2.

Demograffeg fusnes chwarterol yng Nghymru, 2022Ch2 - 2025Ch2



Ffynhonnell: Demograffeg Busnes y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Ystadegau Arbrofol Chwarterol, y DU⁵⁰

Arolwg Effeithiau ac Amodau Busnes

Yn yr Arolwg Effeithiau ac Amodau Busnes (BICS) y SYG ar gyfer 1 i 31 Gorffennaf (Wave 138)⁵¹ adroddwyd bod 34.6% o fusnesau Cymru a arolygwyd wedi profi cynnydd mewn trosiant ym mis Gorffennaf 2025 o'i gymharu â'r mis blaenorol (DU 29.7%). Roedd tua 30.8% o fusnesau Cymru a arolygwyd yn disgwyl i drosiant gynyddu ym mis Medi 2025 o'i gymharu â chyfartaledd y DU o 25.3%.⁵²

Datgelodd y BICS hefyd, yn ystod mis Gorffennaf 2025, fod 8.9% o fusnesau a arolygwyd yng Nghymru (DU 8.7%) wedi nodi bod prisiau'r nwyddau a'r gwasanaethau a werthwyd gan eu busnesau wedi cynyddu o'i gymharu â'r mis

blaenorol. Yn y cyfamser, adroddodd 14.8% o fusnesau a arolygwyd yng Nghymru (DU 18.0%) fod y prisiau yr oeddent wedi'u talu am nwyddau a gwasanaethau wedi cynyddu o'r mis blaenorol. Adroddodd tua 15.9% o gwmnïau Cymru eu bod yn disgwyl i nifer eu gweithwyr gynyddu ym mis Medi 2025 (DU 14.8%).

O'i gymharu â'r un cyfnod yn 2024, roedd 30.4% o fusnesau Cymru a holwyd yn credu bod eu perfformiad wedi cynyddu (DU 26.7%), gyda 20.5% yn credu ei fod wedi gostwng (DU 21.6%). O ran disgwyliadau, roedd 38.8% o fusnesau Cymru yn disgwyl y byddai eu perfformiad yn cynyddu yn y flwyddyn i ddod (DU 32.3%).

⁵⁰ ONS, ibid.

⁵¹ <http://www.ons.gov.uk/economy/economicoutputandproductivity/output/datasets/businessinsightsandimpactontheukeconomy>

⁵² Er mwyn cyflwyno'r wybodaeth gymharu ar gyfer Cymru ar gyfer y cyfnod hwn, bu'n angenrheidiol defnyddio data heb ei bwysoli sy'n dangos canlyniadau ymatebwyd arolwg y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn unig, nad yw wedi'i addasu i fod yn gynrychioliadol o nodweddion busnes ehangach yng Nghymru.


Ansolfedd busnesau

Mae Ffigur 3.3 yn dangos tuedd ansolfedd cwmnïau cofrestredig yng Nghymru a Lloegr o fis Gorffennaf 2023 i fis Gorffennaf 2025. Cyfanswm yr ansolfeddu misol ym mis Gorffennaf 2025 oedd 2,081, ychydig iawn o newid o 12 mis ynghynt pan oedd 2,078 o

ansolfeddu. Parhaodd y gyfradd gyffredinol hon i gael ei gyrru gan ddiddymiadau gwirfoddol credydwy, a oedd yn 1,583 ym mis Gorffennaf 2025. Roedd nifer y diddymiadau gorfodol yn 339 ym mis Gorffennaf 2025.

Ffigur 3.3.

Ansolfedd cwmnïau cofrestredig misol, Cymru a Lloegr, Gorffennaf 2023 – Gorffennaf 2025 (wedi'i addasu'n dymhorol)



Ffynhonnell: Ystadegau Misol Ansolfedd Llywodraeth y DU⁵³

Gall dyfarniadau Llys Sirol ar ddyled, fel rhan o duedd ehangach, helpu i ragweld ansolfedd posibl yn y dyfodol. Mae data dros dro yn dangos bod 512,000 o hawliadau Llys Sirol yn

ystod ail chwarter 2025, cynnydd sylweddol o 23% o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2024. O'r rhain, roedd 438,000 yn hawliadau arian, cynnydd o 28% ar yr un chwarter yn 2024.⁵⁴

⁵³ <http://www.gov.uk/government/collections/company-insolvency-statistics-releases>

⁵⁴ <http://www.gov.uk/government/collections/civil-justice-statistics-quarterly#2024>


Cynyddodd prisiau tai yng Nghymru 2.0% yn y flwyddyn hyd at fis Gorffennaf 2025

Mae data Cofrestrfa Tir EM sy'n casglu pryniannau arian parod a morgais yn dangos bod pris cyfartalog tai yng Nghymru ym mis Gorffennaf 2025 yn £209,178, cynnydd o 2.0% o fis Gorffennaf 2024. Ar y cyfan, cynyddodd prisiau tai yn y DU 2.8% yn y 12 mis hyd at fis Gorffennaf 2025, ac roedd pris cyfartalog tai

yn y DU ym mis Gorffennaf 2025 yn £270,000, a oedd £8,000 yn uwch na 12 mis ynghynt⁵⁵. Dangosodd data gan Nationwide hefyd gynnydd blynyddol yn y flwyddyn hyd at fis Gorffennaf 2025 (o 2.4%). Awgrymodd Nationwide fod marchnad eiddo'r DU wedi 'sefydlogi yn dilyn diwedd y gwyliau treth stamp'⁵⁶.

Ffigur 3.4.

Mynegai Prisiau Tai Cymru a'r DU, Newid Canrannol Blynyddol, Gorffennaf 2023 – Gorffennaf 2025



Ffynhonnell: Cofrestrfa Tir EM⁵⁷ (amcangyfrifon dros dro ar gyfer Gorffennaf 2025)

Adroddodd Banc Lloegr ym mis Gorffennaf 2025⁵⁸ fod cymeradwyaethau morgeisi net ar gyfer prynu tai yn 65,400, tra bod benthyca net o ddyled morgais gan unigolion wedi gostwng £0.9 biliwn i £4.5 biliwn ym mis Gorffennaf. Yn y cyfamser, adroddodd y Banc hefyd fod y gyfradd llog effeithiol (y gyfradd llog wirioneddol a delir)

ar forgeisi newydd eu tynnu wedi gostwng i 4.28% ym mis Gorffennaf ac wedi aros ar 3.88% ar y stoc o forgeisi sy'n weddill. Gostyngodd cymeradwyaethau ailforgeisio i 38,900 ym mis Gorffennaf, ond mae'n bwysig nodi mai dim ond cymeradwyaethau ailforgeisio gyda benthyciwr gwahanol y mae'r data hwn yn eu cynnwys.

⁵⁵ <https://www.gov.uk/government/statistics/uk-house-price-index-for-july-2025>

⁵⁶ <https://www.ft.com/content/bbe3816c-c5db-461e-8e55-3365f9e03a99>

⁵⁷ <https://www.gov.uk/government/statistics/uk-house-price-index-for-july-2025>

⁵⁸ <http://www.bankofengland.co.uk/news/?NewsTypes=571948d14c6943f7b5b7748ad80bef29&Taxonomies=65c741d9573d48c09359a3c48020fe76&infiniteScrolling=False&Direction=Latest>

Mae buddsoddiad mewn tai yn y DU yn wan ond disgwylir iddo godi yn ystod 2026

Ym mis Awst 2025, adroddodd Banc Lloegr, er bod buddsoddiad tai yn parhau i fod yn wan, ei fod yn parhau i ddisgwyl i dwf blynyddol buddsoddiad tai gryfhau i 5% yn 2026, a 6% yn 2027.⁵⁹ Yn y cyfamser, cofrestrodd Mynegai Rheolwyr Prynu Adeiladu⁶⁰ Byd-eang y DU S&P

45.5 mewn gweithgaredd adeiladu cyffredinol ym mis Awst 2025, islaw'r trothwy niwtral o 50.0, ond i fyny o 44.3 ym mis Gorffennaf. Peirianeg sifil oedd y maes gweithgaredd gwannaf ym mis Awst ar 38.1, tra bod adeiladu preswyl wedi cofrestru 44.2, ac adeiladu masnachol 47.8.

Mae'r farchnad eiddo masnachol yn parhau i ddangos arwyddion ei bod yn adfer

Mae marchnad eiddo masnachol y DU yn parhau i ddangos arwyddion ei bod yn adfer yn 2025, gyda banciau a sefydliadau ariannol yn cynyddu benthyca i fusnesau eiddo tiriog⁶¹, ac mae arwyddion yn parhau i awgrymu bod rhenti swyddfeydd a gwerthoedd eiddo

wedi bod yn codi wrth i'r galw ymddangos fel petai'n tyfu⁶². Efallai bod hyn yn adlewyrchu dychweliad cynyddol i arferion gweithio swyddfa yn ystod 2025.⁶³ Serch hynny, er gwaethaf yr arwyddion hyn, mae gwneud bargeinion swyddfa yn parhau i fod yn heriol⁶⁴.

⁵⁹ <http://www.bankofengland.co.uk/monetary-policy-report/monetary-policy-report>

⁶⁰ <http://www.pmi.spglobal.com/Public/Release/PressReleases>

⁶¹ <http://www.ft.com/content/142c605d-424b-4ef2-ab5d-1b7e150bbe40>

⁶² <http://www.ft.com/content/a921b502-38ad-4008-99a3-b0ad51c02128>

⁶³ <http://www.ft.com/content/6a591aa7-f1c7-4ed0-8e8a-62df9360fbcc>

⁶⁴ <http://www.ft.com/content/c6d2421c-81ee-4b86-9c3f-5df690dcbc58>

- Yn ystod chwarter 2 2025, cynyddodd benthycia gros i fusnesau bach a chanolig y DU gan y prif fanciau stryd fawr 8% o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2024.
- Roedd y gyfradd llog effeithiol ar fenthyciadau newydd i fusnesau bach a chanolig yn 5.8% ym mis Gorffennaf 2025, i lawr o 7.6% ym mis Gorffennaf 2024.
- Ym mis Medi 2025, amcangyfrifwyd bod 6.5% o fusnesau bach a chanolig yng Nghymru yn y categori sgôr credyd risg uchaf.

Y cyflenwad a'r galw am fenthyciadau busnes

Mae Arolwg Amodau Credyd chwarterol Banc Lloegr yn archwilio tueddiadau a datblygiadau mewn amodau credyd yn y DU. Gofynnodd arolwg 2025Ch2 i fenthycwyr adrodd ar eu newidiadau canfyddedig yn y cyflenwad o gredyd a'r galw amdano ar gyfer y tri mis yn diweddu ym mis Mai 2025, o'i gymharu â'r tri mis yn diweddu ym mis Chwefror 2025.⁶⁵ Gofynnwyd i fenthycwyr hefyd am eu disgwyliadau o newidiadau hyd at ddiwedd mis Awst 2025. Cynhaliwyd yr arolwg rhwng 27 Mai a 13 Mehefin 2025 ac nid yw'n ystyried unrhyw newidiadau sydd wedi digwydd ers hynny.

Adroddodd benthycwyr fod argaeledd cyffredinol credyd i'r sector corfforaethol wedi cynyddu ychydig yn 2025Ch2. Yn benodol, cynyddodd argaeledd credyd i fusnesau bach a chanolig, a chynyddodd ychydig i fusnesau mawr, yn ystod 2025Ch2. Disgwyliwyd i argaeledd cyffredinol credyd i'r sector corfforaethol gynyddu ychydig yn 2025Ch3.

Yn y cyfamser, adroddodd benthycwyr fod y galw am fenthycia gan fusnesau bach a chanolig wedi cynyddu ychydig, a bod y galw gan fusnesau mawr wedi aros yr un fath, yn ystod ail chwarter 2025. Disgwyliwyd i'r galw gynyddu ychydig ar gyfer busnesau bach a mawr, ac aros yr un fath ar gyfer busnesau canolig, yn ystod trydydd chwarter 2025. Mae

Monitor Cyllid Busnesau Bach a Chanolig yn dangos, yn y tri mis hyd at fis Mehefin 2025, fod gan Gymru (33%) gyfradd is o fusnesau bach a chanolig gyda'r argraff ei bod yn anodd sicrhau cyllid na busnesau bach a chanolig ledled y DU yn gyffredinol (39%)⁶⁶.

Canfu Cyllid y DU fod benthyciadau gros i fusnesau bach a chanolig y DU gan y prif fanciau stryd fawr wedi cynyddu 8% flwyddyn ar ôl blwyddyn yn ystod chwarter 2025, ac mai ail chwarter 2025 oedd y chweched chwarter yn olynol i weld twf blwyddyn ar ôl blwyddyn. Ar wahân i ieched a gwaith cymdeithasol, a oedd wedi gweld twf cadarn ar draws y tri chwarter blaenorol ond a grebachodd yn ystod chwarter 2025, ychydig iawn o wahaniaeth oedd rhwng sectorau yn y twf a brofwyd. Gan edrych ymlaen, disgwyliwyd y bydd yr arafwch yn nhwff benthycia yn parhau yn ystod ail hanner 2025.⁶⁷

Dangosodd yr Arolwg Amodau Credyd fod cyfraddau diffyg talu ar fenthyciadau i fusnesau o bob maint wedi aros yr un fath yn ystod 2025Ch2. Rhagwelir y bydd y cyfraddau hyn yn aros yr un fath ar gyfer pob maint busnes yn ystod 2025Ch3. Arhosodd colledion mewn achos o ddiffyg talu yr un fath ar gyfer busnesau bach a chanolig eu maint a chynyddodd ar gyfer busnesau mawr yn ystod 2025Ch2.

⁶⁵ <http://www.bankofengland.co.uk/credit-conditions-survey/2025/2025-q2>

⁶⁶ <http://www.bva-bdrc.com/sme-finance-monitor/#reports>

⁶⁷ http://www.ukfinance.org.uk/system/files/2025-09/Business_Finance_Review_2025_Q2.pdf

Gostyngiad bach yn nifer y busnesau bach a chanolig yn y DU sy'n defnyddio cyllid allanol yn ail chwarter 2025

Canfu Monitor Cyllid Busnesau Bach a Chanolig (Monitor Cyllid BBaCh) fod 42% o fusnesau bach a chanolig y DU wedi defnyddio rhyw fath o gyllid allanol yn ystod ail chwarter 2025, i lawr o 44% yn ystod cyntaf chwarter 2025.⁶⁸ Yn ystod 2025Ch2, gostyngodd y defnydd o gardiau credyd gan fusnesau bach a chanolig yn y DU i 17% (o 18% yn 2025Ch1), cododd gorddrafftiau i 14% (o 12%), gostyngodd prydlesu

a hurbwrcasu (HP) i 12% (o 13%), a chododd benthyciadau banc neu forgeisi i 9% (o 6%), tra bod grantiau wedi aros yn gyson ar 2%. Cododd canran y busnesau bach a chanolig yn y DU a oedd yn chwistrellu arian personol i'w busnes ychydig i 35% yn 2025Ch2, o 34% yn 2025Ch1, gyda 24% o'r busnesau hyn yn credu nad oedd ganddynt ddewis gwneud hynny.


Roedd y gyfradd llog gyfartalog ar fenthyciadau i fusnesau bach a chanolig ym mis Gorffennaf 2025 yn is nag oedd hi 12 mis ynghynt

Mae Ffigur 4.1 yn dangos y gyfradd twf misol ar gyfer benthyciadau i fusnesau bach a chanolig (BBaCh), a'r gyfradd llog bwysoli yn seiliedig ar ddata Banc Lloegr ar gyfer y cyfnod rhwng Gorffennaf 2024 a Gorffennaf 2025.⁷⁰ Cynyddodd y gyfradd twf ar gyfer benthycia gan fusnesau

bach a chanolig i 0.9% yn ystod Gorffennaf 2025, i fyny o 0.3% yn y mis blaenorol, gan barhau â thuedd fisol gynyddol drwy gydol 2024 a 2025. Yn y cyfamser, y gyfradd llog effeithiol ar fenthyciadau newydd i fusnesau bach a chanolig oedd 5.80% ym mis Gorffennaf 2025, i lawr o 5.94% ym mis Mehefin 2025.

Ffigur 4.1

Cyfradd Twf Benthyciadau BBaCh â Chyfradd Llog Cyfartalog ar Fenthyciadau BBaCh, Gorffennaf 2024 - Gorffennaf 2025 (%)



Ffynhonnell: Banc Lloegr⁷¹

⁶⁸ <http://www.bva-bdrc.com/sme-finance-monitor/#reports>

⁶⁹ Nid yw'r data diweddaraf ar gyfer Cymru ar gyfer yr un cyfnod ar gael eto.

⁷⁰ Cyfartaledd misol cyfradd llog gyfartalog bwysoli sterling banciau preswyl y DU - benthyciadau eraill, cyfradd arnofiol sy'n gysylltiedig â Chyfradd y Banc (ailosodiad <3 mis) i fentrau bach a chanolig (mewn canran) heb ei addasu'n dymhorol. Cyfres Banc Lloegr CFMZ6HQ <https://www.test.bankofengland.co.uk/boeapps/database/fromshowcolumns.asp?Travel=NlxAZxSUx-&FromSeries=1&ToSeries=50&DAT=RNG&FD=1&FM=Jan&FY=2010&TD=11&TM=May&TY=2025&FNY=Y&CSVF=TT&html.x=66&html.y=26&SeriesCodes=CFMZ6HQ&UsingCodes=Y&Filter=N&title=CFMZ6HQ&VPD=Y>

⁷¹ Banc Lloegr, Arian a Chredyd www.bankofengland.co.uk/news/?NewsTypes=571948d14c6943f7b5b7748ad80bef29&Taxonomies=65c741d9573d48c09359a3c48020fe76&infiniteScrolling=False&Direction=Latest


Symudodd stoc y benthyciadau i fusnesau bach a chanolig Cymru yn ôl tuag at lefelau cyn y pandemig yn ystod 2024

Dangosodd data benthycia busnesau bach a chanolig Cyllid y DU ar gyfer codau post y DU, a gyhoeddwyd ar gyfer pob cyfnod o hanner blwyddyn, ostyngiad parhaus yn stoc y benthycia i fusnesau bach a chanolig Cymru yn ystod ail hanner 2024.⁷² Gostyngodd cyfanswm y benthycia o tua £4.590bn yn 2022H1 i £3.855bn yn 2024H2. Fodd bynnag, mae angen dehongli'r data hwn o fewn fframwaith tymor hwy, gan fod benthycia wedi dychwelyd i lefelau cyn-bandemig a gall fod yn gysylltiedig ag ad-dalu benthyciadau sy'n gysylltiedig â Covid.

Mae Ffigur 4.2 yn dangos benthycia i fusnesau bach a chanolig yn ôl ardal cod post Cymru rhwng 2022H1 a 2024H2. Mae'r data'n dangos gostyngiad mewn benthycia i Gymru yn gyffredinol ac ar gyfer y rhan fwyaf o ardaloedd cod post unigol. Mae benthycia o fewn ardal cod post Llandrindod wedi aros yn gymharol sefydlog, er bod hwn yn ganran lai o'r cyfanswm benthycia yng Nghymru nag ardaloedd eraill. Yn ystod 2024H2, derbyniodd ardal cod post Abertawe £1.22bn o fenthyciadau, tra bod Llandudno wedi derbyn £938m, Caerdydd £882m, Casnewydd £476, a Llandrindod £334m, yn ystod 2024H2⁷³.

Ffigur 4.2.

Benthycia i Fusnesau Bach a Chanolig, Ardal Cod Post Cymru (£m)



Ffynhonnell: Data Benthycia Cod Post Cyllid y DU, Busnesau Bach a Chanolig⁷⁴

⁷² UK Finance, SME Lending, UK Postcodes www.ukfinance.org.uk/data-and-research/data/sme-lending-within-uk-postcodes

⁷³ Nid yw'r cyfanswmiau ar gyfer Cymru yn y ffynhonnell ddata hon yn cynnwys rhai ardaloedd cod post Amwythig sydd yng Nghymru.

⁷⁴ UK Finance www.ukfinance.org.uk/data-and-research/data/sme-lending-within-uk-postcodes

Buddsoddiadau ecwiti

Daw buddsoddiadau ecwiti mewn busnesau o amrywiol ffynonellau, megis cronfeydd cyfalaf menter, angylion busnes, cyllidwyr torfol, buddsoddwyr corfforaethol, a chronfeydd y llywodraeth. Mae'r buddsoddiadau hyn yn digwydd ar wahanol gamau o ddatblygiad busnes.⁷⁵

Amlinellodd adroddiad Marchnadoedd Cyllid Busnesau Bach⁷⁶ blynyddol Banc Busnes Prydain 2024/25 y newidiadau ym marchnadoedd dyled y DU yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Nododd yr adroddiad ostyngiad bach mewn powdr sych mewn cronfeydd dyled preifat, a briodolir i gynnydd cymedrol mewn defnyddio buddsoddiadau a gostyngiad mewn codi arian. Mae powdr sych yn cyfeirio at y cyfalaf ymrwymedig sydd gan reolwyr cronfeydd ar gael i fuddsoddi mewn cyfleoedd newydd.

Bu dirywiad byd-eang yn nifer y cyfalaf menter a godwyd a chyfanswm y cronfeydd, tra bod llawer

o gronfeydd yn gorffen eu cyfnodau buddsoddi gyda phowdr sych sylweddol. Ar ben hynny, mae ansicrwydd yn y farchnad wedi effeithio ar nifer y cynigion cyhoeddus cychwynnol, lle mae cwmnïau a gefnogir gan gwmnïau cyfalaf menter yn newid o fod yn breifat i fod yn fasnachedig yn gyhoeddus.⁷⁷

Gostyngodd buddsoddiadau ecwiti mewn busnesau bach yn y DU 24.3% flwyddyn ar flwyddyn hyd at drydydd chwarter 2024, ond roedd y gostyngiad yn llai arwyddocaol yng Nghymru sef 14.3%. Yn cyferbynu hynny, fodd bynnag, cynyddodd cyfanswm gwerthoedd buddsoddi blwyddyn ar flwyddyn ledled y DU 6.6% hyd at drydydd chwarter 2024, tra yng Nghymru gostyngodd y gwerthoedd hyn 45.7%. Cododd cyllid ecwiti ar gyfer cyfnodau twf a hadau yn gynnar yn 2024, ond wynebodd heriau yn drydydd chwarter, gan arwain at ostyngiadau flwyddyn ar flwyddyn.⁷⁸

⁷⁵ https://developmentbank.wales/sites/default/files/2019-04/Equity%20Clusters%20Report_final.pdf

⁷⁶ Banc Busnes Prydain (2025). Marchnadoedd Cyllid Busnesau Bach 2024/25. www.british-business-bank.co.uk/sites/g/files/sovrnj166/files/2025-02/small-business-finance-market-report-2025.pdf

⁷⁷ Pitchbook (2024). Adroddiad Codi Arian ar gyfer y Farchnad Breifat Fyd-eang. https://files.pitchbook.com/website/files/pdf/2024_Annual_Global_Private_Market_Fundraising_Report.pdf


⁷⁸ Banc Busnes Prydain (2025). *ibid.*

Busnesau Bach a Chanolig mewn gwahanol categorïau risg credyd

Chwiliwyd cronfa ddata FAME Bureau van Dijk o ddata Tŷ'r Cwmnïau ym mis Medi i geisio tystiolaeth o gyfran y busnesau bach a chanolig yng Nghymru a oedd yn perthyn i wahanol categorïau risg credyd. Cynhyrchodd y chwiliad 101,707 o fusnesau bach a chanolig gyda sgôr credyd hysbys. Mae Ffigur 4.3 yn datgelu, o'r cyfanswm hwn, fod 6.5% o fusnesau bach a chanolig yng Nghymru wedi'u hamcangyfrif i fod

yn y categori sgôr credyd risg Uchaf (i fyny o 5.9% ym mis Medi 2024). Roedd y categori Gofalus yn cynnwys 53,948 o fusnesau bach a chanolig neu 53% o'r cyfanswm. Yn gyffredinol, mae'r cyfrannau hyn yn eithaf araf i newid a chyda diweddariadau i'r sgôr credyd yn dod ar wahanol adegau yn ôl pryd y caiff data newydd ei uwchlwytho i gronfa ddata FAME.

Ffigur 4.3.
Busnesau Bach a Chanolig yng Nghymru yn ôl categorïau sgôr credyd, % (amcangyfrifon Medi 2025)



- Yn 2025/26Ch1, cwblhaodd Banc Datblygu Cymru 131 o fuddsoddiadau gyda chyfanswm gwerth o bron i £26m. Roedd y buddsoddiadau hyn yn gysylltiedig â bron i 920 o swyddi newydd a swyddi wedi'u diogelu.
- Busnesau yn rhanbarth de-ddwyrain Cymru gyfrifwyd am y gyfran uchaf o werth buddsoddiad (42%) yn 2025/26Ch1.
- Y sector adeiladu oedd yn dominyddu gweithgaredd buddsoddi yn 2025/26Ch1, gan gyfrif am 41% o werth buddsoddiad (£10.6m).
- Creodd neu ddiogelodd buddsoddiadau Banc Datblygu yn y sector gweithgynhyrchu 412 o swyddi (45% o gyfanswm y swyddi).

Cwblhaodd y Banc Datblygu 131 o fuddsoddiadau yn 2025/26Ch1, gan gefnogi bron i 920 o swyddi


Mae Ffigur 5.1 yn dangos gostyngiad yn nifer y buddsoddiadau a wnaed gan Banc Datblygu Cymru yn chwarter agoriadol blwyddyn ariannol 2025/26 o'i gymharu â'r ddau chwarter blaenorol. Yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25, adroddodd y Banc Datblygu lefelau uchaf erioed o ran nifer y buddsoddiadau, gwerth buddsoddiadau a swyddi a grëwyd neu a ddiogelwyd. Fodd bynnag, mae nifer y buddsoddiadau a wnaed yn chwarter cyntaf 2025/26 yn uwch nag yn 2024/25Ch2 ac mae'n gymharol â 2024/25Ch1 (135 o fuddsoddiadau, heb eu dangos yn Ffigur 5.1). Mae angen bod yn ofalus wrth ddehongli data buddsoddi chwarterol a all fod yn anwadal a chael ei ddylanwadu gan nifer fach o fuddsoddiadau sylweddol.

Roedd nifer y swyddi a grëwyd neu a ddiogelwyd yn gysylltiedig â buddsoddiadau Banc Datblygu yn 918 yn 2025/26Ch1, gostyngiad o'i gymharu â'r tri chwarter blaenorol, ond unwaith eto mae data 2025/26Ch1 yn gyson â 2024/25Ch1 (982 o swyddi).

Yn 2025/26Ch1, roedd 67% o gyfanswm y swyddi a gefnogwyd gan fuddsoddiadau Banc Datblygu yn swyddi a ddiogelwyd, gyda 33% yn cynrychioli swyddi a grëwyd.

Ffigur 5.1.

Buddsoddiadau a swyddi a grëwyd a'u diogelu, 2024/25Ch2 – 2025/26Ch1




Roedd cyfanswm gwerth y buddsoddiadau a wnaed yn ystod Ch1 2025/26 bron yn £26m

Mae Ffigur 5.2 yn dangos bod buddsoddiad dyled ac ecwiti newydd yn 2025/26Ch1 yn £17.4m, gyda £8.6m pellach o ddatblygu eiddo. Roedd buddsoddiad ecwiti (heb ei ddangos ar wahân yn Ffigur 5.2) yn 2025/26Ch1 ychydig dros £3m, o'i gymharu ag £1m yn y chwarter blaenorol, a bron i £10m yn 2024/25Ch3, sef y chwarter cryfaf ar gyfer pob math o fuddsoddiad yn y flwyddyn ariannol flaenorol.

O ran cyfanswm gwerth y buddsoddiadau, er bod gwerth Ch1 2025/26 yn is na'r chwarteri a ddangosir yn ffigur 5.2, mae'n unol â chwarteri agoriadol 2022/23 (bron i £24m) a 2023/24 (£27m). Roedd lefel y galw am fuddsoddiadau Banc Datblygu yn arbennig o uchel yn Ch1 2024/25 (pan oedd cyfanswm y buddsoddiadau yn £32m), o'i gymharu â gweithgaredd arferol y chwarter cyntaf, a chyda'r rhain yn cynnwys mwy o gytundebau buddsoddi mwy nag a wneir fel arfer yn Ch1 y flwyddyn ariannol.

Ffigur 5.2.

Buddsoddiad Newydd yn ôl math o fuddsoddiad, £m, 2024/25Ch2 – 2025/26Ch1



Mae Ffigur 5.3 yn dangos bod busnesau yn ne-ddwyrain Cymru wedi derbyn dros £10m o gronfeydd buddsoddi (bron i 42%), a bron i 620 o swyddi cysylltiedig (67% o swyddi) yn 2025/26Ch1. Roedd y busnesau hyn hefyd yn cyfrif am dros hanner nifer y buddsoddiadau yn ystod y chwarter. Sicrhodd busnesau yng nghanolbarth a de-orllewin Cymru ychydig llai na

£10m o gyllid Banc Datblygu o 36 o fuddsoddiadau, yn gysylltiedig â bron i 200 o swyddi newydd neu swyddi wedi'u diogelu. Sicrhodd busnesau yng ngogledd Cymru 28 o fuddsoddiadau gyda chyfanswm o bron i £5.5m o fuddsoddiad, gan gefnogi dros 100 o swyddi newydd neu swyddi wedi'u diogelu yn 2025/26Ch1.


Ar gyfartaledd, roedd pob buddsoddiad a wnaed gan y Banc Datblygu yn 2025/26Ch1 yn gysylltiedig â £198,400 o gyllid

Er bod gwerth cyfartalog y buddsoddiad yn 2025/26Ch1 ymhell islaw'r uchafbwynt diweddar o £323,000 yn 2024/25Ch3, roedd amrywiad sylweddol yng ngwerthoedd cyfartalog y buddsoddiad yn ôl rhanbarth. Yn

2025/26Ch1, roedd gwerthoedd cyfartalog y buddsoddiad yn £270,200 yng nghanolbarth a de-orllewin Cymru, £193,800 yng ngogledd Cymru, a £161,700 yn ne-ddwyrain Cymru.

Ffigur 5.3.

Gwerthoedd buddsoddi, £m, a swyddi a grëwyd a'u diogelu yn ôl lleoliad 2025/26Ch1



Y sector adeiladu oedd yn dominyddu benthyca yn 2025/26Ch1, gan gyfrif am dros £10.6m o gyllid


Mae Ffigur 5.4 yn dangos y sectorau yn yr economi a sicrhodd dros £1m o gyllid buddsoddi Banc Datblygu yn ystod 2025/26Ch1. Sicrhodd busnesau yn y sector adeiladu 41% o gyllid buddsoddi ond dim ond 8% o swyddi cysylltiedig oeddent yn cyfrif amdanynt⁷⁹. Sicrhodd y chwe sector uchaf a ddangosir yn Ffigur 5.4, wedi'u rhestru yn ôl gwerth buddsoddiad, bron i 83% o'r holl gyllid buddsoddi, a thros 87% o swyddi yn

2025/26Ch1. Creodd neu ddiogelodd busnesau yn y sector gweithgynhyrchu 412 o swyddi (45% o gyfanswm y swyddi) yn 2025/26Ch1 gyda thua 8% o gyllid buddsoddi (£2.2m). Felly, ar gyfartaledd cefnogwyd tua 190 o swyddi gan bob buddsoddiad o £1m yn y sector gweithgynhyrchu, o'i gymharu â'r cyfartaledd o 35 o swyddi fesul £1m a fuddsoddwyd ar draws pob sector o'r economi yn 2025/26Ch1.

⁷⁹ Ar gyfer rhai cronfeydd y mae busnesau yn y sector hwn yn cael mynediad atynt (sy'n ymwneud ag eiddo/adeiladu) nid yw swyddi yn ddangosydd perfformiad allweddol (DPA) felly nid oes unrhyw gyflogaeth, neu gyflogaeth gyfyngedig iawn, yn gysylltiedig yn uniongyrchol â rhai o'r buddsoddiadau hyn.

Ffigur 5.4.

Gwerth buddsoddiad, £m, a swyddi yn ôl sector 2025/26Ch1. Sectorau dethol gyda gwerthoedd buddsoddi uwchlaw £1m



Wrth ddarllen yr adroddiad chwarterol hwn, mae'n anodd dianc rhag y casgliad bod economi'r DU yn cael anawsterau i symud ymlaen yn wyneb cyfres o broblemau mewnol ac allanol. Er bod economi'r DU wedi perfformio'n well na llawer o'r rhai yn y grŵp G7 ym misoedd cyntaf y flwyddyn hon, mae'r rhagolygon ar gyfer 2026 yn dal yn ansicr. Mae rhagolygon gwael ar hyder gweithgynhyrchu ac arwyddion bach o gynnydd cryf mewn hyder defnyddwyr yn peri pryder yn arbennig.⁸⁰

Mae economi'r DU yn mynd i mewn i fisoedd olaf 2025 gyda'r posibilrwydd o drethi cyhoeddus a busnes cynyddol, a chwyddiant yn parhau'n uchel iawn. Mae'r ansicrwydd busnes sy'n gysylltiedig â chylch cyllideb blyneddol y DU yn un ffactor sy'n effeithio ar hyder. Mae'r gyllideb sydd ar ddod ym mis Tachwedd yn gweld y Canghellor heb fawr o le i symud o ystyried addewidion hanesyddol ar drethi pobl sy'n gweithio. Mae rhywfaint o ddisgwyliad, er mwyn mynd i'r afael â diffygion ariannol, y bydd angen gweithredu cyfuniad o newidiadau i gyfraddau busnes, addasu credydau treth Ymchwil a Datblygu a newidiadau mewn perthynas â'r amodau trethiant sy'n ymwneud â phensiynau a chynilion. Mae'r gyfres o ymosodiadau seiber a gafodd gyhoedduswydd mawr ar fusnesau blaenllaw'r DU, fel Jaguar Land Rover, a chyda thentaclau effaith economaidd yr ymosodiad hwn yn effeithio ar fusnesau'r gadwyn gyflenwi yn economi Cymru, wedi bod yn llusgo ymhellach ar hyder busnesau. Ar ben hynny, ychydig iawn o newid sydd wedi bod yn yr amodau geo-wleidyddol rhyngwladol ers dechrau 2025, gyda chyfres o economïau Ewropeaidd yn gorfod cynyddu gwariant y diwydiant amddiffyn, dim llai o ostyngiad yn y gwrthdaro yn yr Wcrain, a sefyllfa sy'n gwaethygu yn y dwyrain canol.

Ar gyfer economi Cymru, mae'r adroddiad hwn yn datgelu bod dangosyddion y farchnad lafur yn gymysg. Er bod rhywfaint o arwydd o ostyngiadau mewn anweithgarwch economaidd yn y DU a Chymru, mae hyn yn parhau i fod yn gyfyngiad sylweddol ar dwf economaidd. Yn ogystal, bydd y gostyngiad yng ngwerth nwyddau a allforiwyd o Gymru yn y flwyddyn hyd at fis Mehefin 2025, a dirywiad yn nifer yr allforwyr dros yr un cyfnod yn effeithio ar weithgarwch economaidd a chynhyrchiant. Amcangyfrifir bod busnesau Prydeinig sy'n allforio (nwyddau a/neu wasanaethau) 28.5% yn fwy cynhyrchol na busnesau nad ydynt yn allforio.⁸¹

Fodd bynnag, bu newyddion cadarnhaol yng Nghymru o ran perfformiad buddsoddi mewnol, gyda 2024/25 yn gweld dros 4,000 o swyddi newydd a swyddi wedi'u diogelu mewn 65 o brosiectau⁸². Mae buddsoddiadau mawr newydd yn cynnwys KLA (peiriannau lled-ddargludyddion) a Microsoft yng Nghasnewydd ac Eren yn Shotton (papur). Mae Tata yn parhau â'i fuddsoddiad mewn technoleg arc trydan ym Mhort Talbot, gyda'r cyfleuster newydd wedi'i gynllunio i fod ar waith ddiwedd 2027 neu ddechrau 2028. Eleni hefyd gwelsom gwblhau hir-ddisgwyliedig deuoli ffordd Blaenau'r Cymoedd yr A465. Y flwyddyn nesaf gwelir etholiadau i Senedd Cymru, a chyda diddordeb cynyddol yn yr hyn a allai fod ym manifestos datblygu economaidd y prif bleidiau.

Yn ystod chwarter cyntaf blwyddyn ariannol 2025/26, parhaodd Banc Datblygu Cymru i gefnogi busnesau bach ledled Cymru. Gostyngodd nifer a gwerth y buddsoddiadau a wnaed gan y Banc Datblygu yn 2025/26Ch1 o'i gymharu â chwarteri diweddar a oedd â lefelau uchaf erioed o weithgarwch buddsoddi. At ei gilydd, gwnaed 131 o fuddsoddiadau yn 2025/26Ch1, gyda gwerth o £26m, gan greu neu ddiogelu bron i 920 o swyddi.

⁸⁰ <https://researchbriefings.files.parliament.uk/documents/SN02817/SN02817.pdf>

⁸¹ Gweler Palmou and Jones (2025) <https://www.escoe.ac.uk/publications/trade-and-productivity-in-british-firms-2005-2022/>

⁸² <https://www.gov.wales/thousands-more-jobs-thanks-foreign-investment-growth-wales>

Atodiad 1:

Adnoddau dethol sy'n cael eu diweddaru'n aml

Mae rhai ffigurau a adroddir yn yr adroddiadau chwarterol yn newid yn eithaf cyflym. I'r darlennydd, mae'r atodiad hwn yn darparu dolenni gwe i'r ystadegau sy'n cael eu diweddaru'n aml fel y gellir cael diweddariadau cyn yr adroddiad chwarterol nesaf.

Diweddariadau CDG y DU:

<https://www.ons.gov.uk/economy/grossdomesticproductgdp/bulletins/gdpfirstquarterlyestimateuk/latest>

Dadansoddiad o farchnad lafur y DU:

<https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes>

Data marchnad lafur ranbarthol y DU:

<https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/datasets/nationallabourmarketsummarybyregions01>

Atodiad 2:

Rhagolygon CDG dethol ar gyfer economi'r DU 2025 a 2026
(% twf blynyddol)

Daroganwyr	Dyddiad y rhagolygon	Twf blynyddol % CDG 2025	Twf blynyddol % CDG 2026
IMF	Ebrill 2025	1.1	1.4
OECD	Mehefin 2025	1.3	1.0
NIESR	Awst 2025	1.3	1.2
<i>Daroganwyr eraill nad ydynt yn seiliedig mewn dinasoedd</i>			
CBI	Gorffennaf 2025	1.2	1.0
Experian Economics	Medi 2025	1.4	1.3
Oxford Economics	Medi 2025	1.3	0.9
<i>Daroganwyr y ddinas</i>			
Capital Economics	Medi 2025	1.3	1.2
JP Morgan	Medi 2025	1.3	1.0
KPMG	Medi 2025	1.2	1.1

Ffynhonnell: <https://www.gov.uk/government/statistics/forecasts-for-the-uk-economy-september-2025>

Atodiad 2:

Rhagolygon cyfradd diweithdra dethol o Arolwg o'r Llafurflu ar gyfer economi'r DU 2025 a 2026 Ch4

Daroganwyr	Dyddiad y rhagolwg	Cyfradd Diweithdra'r Arolwg o'r Llafurlu 2025 Ch4	Cyfradd Diweithdra'r Arolwg o'r Llafurlu 2026 Ch4
CEBR	Medi 2025	4.8	4.6
Heteronomics	Medi 2025	4.7	4.7
NIESR	Awst 2025	4.6	4.5
<i>Daroganwyr eraill nad ydynt yn seiliedig mewn dinasoedd</i>			
CBI	Gorffennaf 2025	4.7	4.8
Experian Economics	Medi 2025	4.8	4.9
Oxford Economics	Medi 2025	4.9	5.0
<i>Daroganwyr y ddinas</i>			
Capital Economics	Medi 2025	5.0	4.9
JP Morgan	Medi 2025	5.0	5.0
KPMG	Medi 2025	4.9	4.6

Ffynhonnell: <https://www.gov.uk/government/statistics/forecasts-for-the-uk-economy-september-2025>

Atodiad 2:

Rhagolygon twf mewn prisiau ar gyfer economi'r DU 2025 a 2026 (% twf Ch4-ar-Ch4): Chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr (MPD)

Daroganwyr	Dyddiad y rhagolwg	Mynegai Prisiau Defnyddwyr 2025 (Ch4 o'i gymharu â Ch4 flwyddyn yn ôl, %)	Mynegai Prisiau Defnyddwyr 2026 (Ch4 o'i gymharu â Ch4 flwyddyn yn ôl, %)
CEBR	Medi 2025	3.4	2.2
OECD	Mehefin 2025	3.1	2.2
NIESR	Awst 2025	3.3	2.5
<i>Daroganwyr eraill nad ydynt yn seiliedig mewn dinasoedd</i>			
CBI	Gorffennaf 2025	3.3	2.4
Experian Economics	Medi 2025	3.9	2.2
Oxford Economics	Medi 2025	3.8	2.6
<i>Daroganwyr y ddinas</i>			
Capital Economics	Medi 2025	3.9	2.2
JP Morgan	Medi 2025	3.6	2.6
KPMG	Medi 2025	4.0	1.6

Ffynhonnell: <https://www.gov.uk/government/statistics/forecasts-for-the-uk-economy-september-2025>

Atodiad 2:

Rhagolygon twf mewn prisiau ar gyfer economi'r DU 2025 a 2026 (% twf Ch4-ar-Ch4): Chwyddiant Mynegai Prisiau Manwerthu (MPM)

Daroganwyr	Dyddiad y rhagolwg	Mynegai Prisiau Manwerthu 2025 (Ch4 o'i gymharu â Ch4 flwyddyn yn ôl, %)	Mynegai Prisiau Manwerthu 2026 (Ch4 o'i gymharu â Ch4 flwyddyn yn ôl, %)
CEBR	Medi 2025	4.2	3.2
Liverpool Macro Research	Medi 2025	3.0	3.0
NIESR	Awst 2025	3.4	3.7
<i>Daroganwyr eraill nad ydynt yn seiliedig mewn dinasoedd</i>			
CBI	Gorffennaf 2025	3.3	2.6
Experian Economics	Medi 2025	4.8	3.5
Oxford Economics	Medi 2025	5.1	3.8
<i>Daroganwyr y ddinas</i>			
Capital Economics	Medi 2025	5.0	3.5
HSBC	Medi 2025	4.9	3.1
UBS	Medi 2025	4.3	2.5

Ffynhonnell: <https://www.gov.uk/government/statistics/forecasts-for-the-uk-economy-september-2025>

Dirnad Economi Cymru
Economic Intelligence Wales



bancdatblygu.cymru
developmentbank.wales

Banc Datblygu Cymru ccc (Development Bank of Wales Plc) yw cwmni daliannol Grŵp sy'n masnachu fel Banc Datblygu Cymru. Mae'r Grŵp yn cynnwys nifer o is-gwmnïau sydd wedi'u cofrestru ag enwau gan gynnwys y blaenlythrennau BDC. Mae Banc Datblygu Cymru ccc yn gwmni cyllid datblygu sy'n eiddo'n gyfan gwbl i Weinidogion Cymru ac nid yw wedi'i awdurdodi na'i reoleiddio gan yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus ARhD) na'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (AYA). Mae gan Fanc Datblygu Cymru (Banc Datblygu Cymru ccc) dri is-gwmni sydd wedi'u hawdurdodi a'u rheoleiddio gan yr AYA. Sylwch nad yw Banc Datblygu Cymru ccc nac unrhyw un o'i is-gwmnïau yn sefydliadau bancio nac yn gweithredu felly. Mae hyn yn golygu na all unrhyw un o endidau'r grŵp dderbyn blaendaliadau gan y cyhoedd. Mae siart strwythur cyfreithiol cyflawn ar gyfer Banc Datblygu Cymru ccc ar gael yn bancdatblygu.cymru.